

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 10fed Medi, 2018, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadr, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd yn cadeirio)

Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Siôn Williams

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

37. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

38. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

39. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 9fed Gorffennaf, 2018.

Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones ac eilwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts.

40. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd

(1) y ceisiadau a ganlyn i sylw'r Cyngor:

(a) Cais I8/0669/32/LL – Iolfa haul cefn yn Nhy Newydd, Bryncroes.

(b) Cais C18/0586/32/LL – ymestyn ty presennol drwy drosi adeilad allanol ac adeiladu estyniad yn Y Buarth, Faedre, Botwnnog.

(2) Llythyr gan Reolwr Cynllunio, Cyngor Gwynedd, yn hysbysu eu bod "yn cynnal ymarferiad Ffordd Gwynedd er mwyn deall y system yr ydym yn gweithio ynddi'n well ac, drwy wneud hynny, edrych ar sut y gallwn newid neu addasu i gynnig y gwasanaeth gorau o fewn ein gallu i'n amryw gwsmeriaid." Hoffai'r Swyddog i'r Cyngor ymateb i'r ddau gwestiwn a ganlyn:

"1. Yn ddelfrydol, beth 'rydych chi yn ddymuno ei gael neu ei weld gan y Gwasanaeth Cynllunio?

2. Yn ddelfrydol, sut y byddech am i ni darparu hyn i chi?"

Penderfynwyd ymateb fel a ganlyn i'r Swyddog – gweler yn amgaeedig.

41. MATERION FFYRDD

I. **Penderfynwyd** anfon at Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw at:

- (1) Twll dwfn ar gyffordd Pengopa i lawr am bentref Bryncroes angen sylw.
- (2) Y ffordd ger Lon Goch, Botwnnog mewn cyflwr drwg ag angen sylw.

Penderfynwyd hefyd gofyn i'r Swyddog Priffyrdd ystyried barbio corneli y priffyrdd a'r ffyrdd gwledig yn fuan yn y tymor cyn i'r gylchdaith dorri llawn ddechrau. Eleni deallwyd i aml ddamwain ddigwydd oherwydd i gerbydau orfod tynnu i ganol y ffordd er osgoi y tyfiant oedd yn disgyn i'r ffordd.

2. **Derbyniwyd** gwybodaeth gan Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, drwy e-bost, mai cost o osod arwydd Eglwys Bryncroes ar gyffordd Pedair Croeslon fyddai:

Opsiwn 1 – arwydd ar gyffordd ffordd fawr yn unig	£250
Opsiwn 2 – arwydd yn ychwanegol yn Mryncroes	£650

Gan nad oedd y Swyddog yn dweud a yw'r prisiau uchod yn cynnwys gosod hefyd **penderfynwyd** gofyn i'r Cynghorydd Gareth Williams gael cadarnhad beth mae'r prisiau a nodwyd yn ei gynnwys.

3. **Cyflwynwyd** llythyr gan Bennaeth Priffyrdd a Bwrdiestrefol (dros dro) Cyngor Gwynedd yn cynnig i'r Cyngor ymuno a'r cynllun llenwi biniau halen fel a ganlyn:

“llenwi pob bin yn y gymuned ar ddechrau'r gaeaf - £40 y bin
Ail-lenwi bin ar gais y gymuned yn ystod y gaeaf rhwng 1 Hydref a 30 Ebrill - £60 y bin”

Nodwyd fod Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, wedi ymweld â'r biniau halen yn y gymuned beth amser yn ôl a chanfod mai dau fin yn unig oedd angen eu llenwi sef bin rhif 22 ger Pendre, Sarn a bin 18 ger mynedfa i chwarel Nanhoron.

Penderfynwyd yn wyneb y paragraff uchod i wneud cais am gael llenwi'r ddau fin a nodir, sef bin 22 a bin 18, yn unig ar hyn o bryd.

Trafodwyd ymhellach gais wnaed yn gynharach yn y flwyddyn am gael symud bin rhif 26 o gyffordd Ty Rynn, Lon Comins, Rhiw a'i ail-leoli ar allt Coch Moel, Sarn, ond deallwyd ar y pryd nad oedd cyllid ar gael i wneud hynny.

Penderfynwyd ail gyflwyno'r cais unwaith yn rhagor.

4. **Nodwyd** fod gwaith draenio yn cymryd lle ger Cae Mur, Botwnnog, yn ystod mis Medi, 2018.

42. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i law.

43. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

Adroddodd y Clarc fod y ffurflen flynyddol a.y. wedi ei hanfon ymlaen i'r BDO ac fod Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd ar noson y Cyngor lle cadarnhawyd y cyfrifon) a hithau wedi mynd drwy'r dogfennau i gyd er sicrhau fod popeth y gofynwyd amdano yn cael eu hanfon.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

44. AWDURDOD I DALU

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Y Clarc	£372.55
HMRC	£ 93.20
Ad-daliad stampiau	£ 34.42

Diolchodd y Clarc i'r Cynghorydd Carys H. Evans am ei chymorth parod bob amser wrth wneud y cyflogau drwy'r system gyfrifiadurol 'Basic PAYE Tools'.

45. UN LLAIS CYMRU

Derbyniwyd hysbysiad o gyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor o Un Llais Cymru ar 12fed Medi, 2018, yn Siambr Cyngor Tref Pwllheli. Cynrychiolwyr y Cyngor ar y Pwyllgor yma yw'r Cynghorydd David Brunelli ag Elin Hughes.

Penderfynwyd nodi fod mynychu'r cyfarfod yn ddyletswydd cydnabyddiedig.

46. CYNLLUN DATBLYGU AR Y CYD GWYNEDD A MON

Nodwyd fod y ddogfen uchod wedi bod yn cylchredeg ymysg aelodau'r Cyngor.

47. HALEN Y DDAEAR

Llongyfarchwyd y Clarc ar dderbyn plât 'Halen y Ddaear.'